Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Mae Anabledd Dysgu Cymru yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd



**Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth a helpu i wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi?**

**Beth yw ymddiriedolwr?**



Ymddiriedolwr ydy rhywun sy'n rhoi eu hamser nhw am ddim i helpu i reoli elusen. Mae'n rôl gyfreithiol bwysig.

Fel ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru fe fyddwch chi yn:




- deall ein pwrpas ni a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth rydyn ni'n ddweud ein bod ni'n mynd i'w wneud.




- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio o fewn y gyfraith.




- gwneud yn sir ein bod yn dilyn ein rheolau (ein Memorandwm, Erthyglau Cymdeithasiad a Chyfraith Cwmnïau).



- dewis Cadeirydd a Thrysorydd.



- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwario ein harian yn gywir.



- ein helpu ni i benderfynu pa waith byddwn ni yn ei wneud yn y dyfodol.



- ein helpu ni i ofalu am ein staff ni.



Cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr Pwyllgor Rheoli ni ac is-grwpiau eraill.

## I fod yn ymddiriedolwr mae angen i chi:



- fod yn 18 oed neu  drosodd.



- cytuno â a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd a phwrpas Anabledd Dysgu Cymru.




- bod yn hapus bod yn ymddiriedolwr tan ein CCB yn 2028.



- gallu gwrando a siarad mewn cyfarfodydd.



- meddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n ein helpu ni i reoli Anabledd Dysgu Cymru.



- Mynychu pedwar cyfarfod ymddiriedolwyr y flwyddyn yn ystod dyddiau'r wythnos ac is-grwpiau os ydych yn dewis. Cynhelir cyfarfodydd ar Zoom neu wyneb yn wyneb. Byddwn yn talu am eich taith.



- Peidio â bod wedi eich gwahardd rhag bod yn ymddiriedolwr.



- Wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi.

**I fod yn ymddiriedolwr, hoffen ni i chi hefyd gael rhai o'r rhain:**



- eisiau gwella bywydau pobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd nhw a'u gofalwyr nhw.



- gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i fod yn ymddiriedolwr.



- gwybod am y materion sy'n effeithio ar bobl gydag anabledd dysgu.



- deal arian




- gallu deall a siarad Cymraeg.



- deall sut mae corff yn cael ei reoli.



- gwybod am gyflogi staff a gofalu amdanyn nhw

## Sut i wneud cais




Llanwch y ffurflen gais ymddiriedolwr a'I hanfon atom ni erbyn **15 Hydref 2025**.



Yna fe fyddwn ni'n gofyn i rywun sydd yn eich adnabod chi i ysgrifennu geirda – llythyr lle maen nhw'n dweud wrthyn ni am y pethau rydych chi'n gallu eu gwneud.



Wedyn, gofynnwn ni i'n haelodau eich ethol yn ein CCB ar 23 Hydref 2025.

## Anabledd Dysgu Cymru



Rydyn ni:

yn elusen Cymru gyfan a chwmni cyfyngedig trwy warant.



Yn gorff aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau e a'I bartneriaid.

yn cael arian gan Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Loteri Fawr a ffynonellau eraill.



Rydyn ni'n cyflogi 25 o bobl sydd yn gweithio yn ein swyddfa ni yng Nghaerdydd.

# Rhagor o wybodaeth



**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â:**

Joanne Moore yn Anabledd Dysgu Cymru



**Ffôn:**

029 20681160



**E-bost:**

joanne.moore@ldw.org.uk